

Yr Amhersonol

Mae ffurfiau'r amhersonol yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau ysgrifenedig ffurfiol. Mae'r amhersonol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgrifennu cofnodion.

Dyma'r terfyniadau:

-ir	y presennol	e.e.	dywedir
-wyd	y gorffennol	e.e.	ysgrifennwyd
-id	yr amherffaith a'r amhenodol	e.e.	edrychid
-er	y gorchmynnol	e.e.	sylwer

- Nid yw'r terfyniadau hyn yn dweud **pwyl** sy'n gweithredu.
- Mae'r gweithredwr yn cael ei nodi ar ôl **gan**, e.e.
Ysgrifennwyd dau lythyr gan Efa.
- Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e.
Cyhoeddwyd dyddiad y cyfarfod nesaf.
- Mae **ni** neu **nid** yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal, e.e.
Ni lwyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.
Ni **chyhoeddir** y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.


Dyma ambell ffurf afreolaidd:

	Presennol	Gorffennol
mynd	eir	aed, aethpwyd
dod	deuir	daethpwyd
cael	ceir*	caed, cafwyd
gwneud	gwneir	gwnaed, gwnaethpwyd

*Mae **ceir** yn gallu cael ei ddefnyddio yn lle **mae yna**, e.e.

Ceir nifer o ddarlithoedd ar ddydd Llun fel arfer.

Mae yna nifer o ddarlithoedd ar ddydd Llun fel arfer.



Ymarfer

Dewiswch y geiriau cywir yn y cofnodion yma.

Pwyllgor Technoleg Gwybodaeth

Yn bresennol:

Nia James (NJ) – Cadeirydd, Carys Davies (CD), Lleucu Roberts (LIR), Dafydd Williams (DW), Neil Hunt (NH), Kevin Griffiths (KG)

1. Croeso

Croesewir/Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd/Derbynnir ymddiheuriadau gan Sioned Reed, Elisabeth Francis a Robert Daniels.

Rhodder/Rhoddwyd croeso cynnes i LIR, a oedd yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf.

2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd *bod/fod* angen gwneud sawl newid i gofnodion y cyfarfod diwethaf:

Tudalen 4, Pwynt 6 – '*Cynhelir/Cynhaliwyd* cynhadledd undydd yng Nghasnewydd y llynedd.'


Tudalen 4, Pwynt 6 – '*Cynhelir/Cynhaliwyd* cynhadledd undydd yng Ngregynog y flwyddyn nesaf.'

3. Materion yn codi

Rhoddodd y Cadeirydd grynodedb o'r materion sydd wedi'u cyflawni yn erbyn pob pwynt gweithredu ers y tro diwethaf. Ni *drafodwyd/thrafodwyd* unrhyw bwyntiau ychwanegol.

Gofynnwyd/Gofynnodd CD a oedd hi'n bosibl derbyn y cofnodion yn fwy prydlon yn y dyfodol.

4. Gwefan: Adroddiad cynnydd



Dosbarthwyd *daflen/taflen* ddefnyddiol *gan/wrth* y Cadeirydd yn nodi'r cynnydd ers y cyfarfod diwethaf. *Nodir/Nodwyd* y materion hyn:

O fis Medi nesaf ymlaen:


- bydd y dudalen groeso yn ddwyieithog
- *rhoddir/rhoddwyd* dolen uniongyrchol i'r dudalen 'Amdanom ni'
- *gwnaed/gwneir* pob ymdrech i ddiweddarau'r wefan yn ddyddiol.

5. Prynu meddalwedd

Derbyniwyd *becyn/pecyn* diddorol i'w dreialu gan gwmni sy'n arbenigo mewn rhaglenni cyfathrebu electronig yn Llundain. *Bwriedir/Bwriadwyd* treialu'r pecyn ar gyfrifiaduron aelodau penodol o staff yn y gwanwyn.

6. Unrhyw fater arall

Ni *godwyd/chodwyd* unrhyw fater arall.



Ateb:

Pwyllgor Technoleg Gwybodaeth

Yn bresennol:

Nia James (NJ) – Cadeirydd, Carys Davies (CD), Lleucu Roberts (LIR), Dafydd Williams (DW), Neil Hunt (NH), Kevin Griffiths (KG).

1. Croeso

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sioned Reed, Elisabeth Francis a Robert Daniels.

Rhoddwyd croeso cynnes i Lleucu Roberts, a oedd yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf.

2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd *bod* angen gwneud sawl newid i gofnodion y cyfarfod diwethaf

Tudalen 4, Pwynt 6 – '**Cynhaliwyd** cynhadledd undydd yng Nghasnewydd y llynedd.'

Tudalen 4, Pwynt 6 – '**Cynhelir** cynhadledd undydd yng Ngregynog y flwyddyn nesaf.'


3. Materion yn codi

Rhoddodd y Cadeirydd grynodedb o'r materion sydd wedi'u cyflawni yn erbyn pob pwynt gweithredu ers y tro diwethaf. Ni **thrafodwyd** unrhyw bwyntiau ychwanegol.

Gofynnodd CD a oedd hi'n bosibl derbyn y cofnodion yn fwy prydlon yn y dyfodol.

4. Gwefan: Adroddiad cynnydd

Dosbarthwyd **taflen** ddefnyddiol **gan** y Cadeirydd yn nodi'r cynnydd ers y cyfarfod diwethaf. **Nodwyd** y materion hyn:



O fis Medi nesaf ymlaen:

- bydd y dudalen groeso yn ddwyieithog
- **rhoddir** dolen uniongyrchol i'r dudalen 'Amdanom ni'
- **gwneir** pob ymdrech i ddiweddarau'r wefan yn ddyddiol.

5. Prynu meddalwedd

Derbyniwyd *pecyn* diddorol i'w dreialu gan gwmni sy'n arbenigo mewn rhaglenni cyfathrebu electronig yn Llundain. *Bwriedir* treialu'r pecyn ar gyfrifiaduron aelodau penodol o staff yn y gwanwyn.

6. Unrhyw fater arall

Ni *chodwyd* unrhyw fater arall.